

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebost / email: [clerc.llansantffraed@btinternet.com](mailto:clerc.llansantffraed@btinternet.com)  
Tel: 01545 570323

**COFNODION HEB EU CADARNHAU**

**UNCONFIRMED MINUTES**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, 7 Gorffennaf 2015 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

**Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 7 July 2015 at the Reading Room, Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: Cyng G Lewis  
Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, L Lloyd, D Morgan, I Reed a B Tomlins.  
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards.  
Mr Denfer Morgan (Clerc).

Present:

Chairman: Cllr G Lewis  
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, L Lloyd, D Morgan, I Reed and B Tomlins.  
County Councillor Dafydd Edwards.  
Mr Denfer Morgan (Clerk).

**1. Ymddiheuriadau / Materion Personol / Datgelu Buddianau Personol.**  
Dim.

**1. Apologies / Personal Matters / Disclosure of Personal Interests.**  
None.

**2. Cofnodion o'r Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2015.**  
Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2015 fel rhai cywir, yn amodol ar newid y cyfeiriad at 'Gwesty'r Castell' i 'Gwesty'r Central' yng nghofnod 7.4 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**2. Minutes of the Meetings held on 2 June 2015.**  
The Minutes of the Meeting of the Council held on 2 June 2015 were confirmed as being a correct record, subject to amending the reference to the 'Castle Hotel' to the 'Central Hotel' in minute 7.4 and they were signed by the Chairman.

**3. Materion yn codi o'r Cofnodion.**

**3. Matters arising from the Minutes.**

**3.1 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troed ger Llwynteg**  
Cytunwyd gwneud ymholiadau anffurfiol gyda'r perchennog tir perthnasol ac i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**3.1 Tree Stump on Footpath near Llwynteg**  
It was agreed to make informal enquiries with the landowner concerned and to consider the matter further at the next meeting.

**3.2 Llwybr yn arwain at y Maes Chwarae**  
Adroddod y Cynghorydd Dafydd Edwards nad oedd 'planings' ar gael ar werth gan y Cyngor Sir yng Nglanyrafon. Cytunwyd gofyn i'r Cynghorydd Dennis Morgan wneud ymholiadau pellach gyda chyflenwyr eraill er mwyn trefnu cyflenwad o 'scalpings' a'u gosod ar y

**3.2 Track leading to the Playing Field**  
Councillor Dafydd Edwards advised that there were no 'planings' for sale by the County Council from Glanyrafon. It was agreed to ask Councillor Dennis Morgan to make further enquiries with other suppliers in order to proceed to order a supply of 'scalpings' and their placing on the track.

Ilwybr.

### 3.3 Chalet ym Morfa Esgob

Rhoddyd ystyriaeth i'r cais a dderbyniwyd i'r Cyngor gael eglurhâd o'r caniatâd cynllunio fyddai angen i adleoli'r chalet yn bellach o'r môr. Fe gynghorodd y Clerc ei fod wedi'i gynghori gan yr Awdurdod Cynllunio nad oedd y chalet yn Adeilad wedi'i Restrú ond ei fod wedi'i leoli yn yr Ardal Gadwraeth ac yn Ardal Gorlifo B. Felly fe fyddai angen caniatad cynllunio i'w adleoli. Nodwyd fod y chalet wedi derbyn cot o baent yn ddiweddar ac ei fod yn edrych yn well.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Cynghorydd Harry Hayfield drafod mathau gwahonol o gyllido gyda'r unigolion dan sylw.

## 4. Eiddo

### (a) Adroddiad yr Arolygiad

Adroddodd y Cynghorydd Harry Hayfield ei fod wedi archwilio'r maes chwarae, y cyrtiau tenis, y maes parcio a'r banc poteli.

Mynegodd bryder fod y banciau gwydr yn gorlenwi ac nid oedd yn glir fod y Cyngor Sir yn gwneud casgliad wythnosol. Eglurodd y Clerc fod y cytundeb gyda'r Cyngor Sir yn disgwyl iddynt nhw wagio'r banciau yn wythnosol a bod y rhestr ar yr anfoneb diweddaraf, a oedd wedi cyrraedd o'r Cyngor Sir y bore hwnnw, yn dangos nad oedd casgliad wedi bod ar dri achlysur yn ystod y chwarter blaenorol. Eglurodd y Clerc hefyd taw cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned oedd cadw'r lle'n daclus. Roedd cytundeb cyffredinol y gellid gosod trydydd banc gwydr yn y lleoliad er mwyn cwrdd â'r galw.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNWYD:

- i) atgoffa'r Cyngor Sir o'i gyfrifoldeb o dan y cytundeb i wagio'r banciau yn wythnosol;
- ii) gofyn am osod trydydd banc gwydr yn y lleoliad i gwrdd â'r galw.

### 3.3 Chalet at Morfa Esgob

Consideration was given to the request received for the Council to seek clarification as to the planning permission that would be required to relocate the chalet to a site further inland. The Clerk advised that the verbal advice he had received from the Planning Authority was that the chalet was not a Listed Building but was located in the Conservation Area and in Flood Zone B. Its relocation would therefore require planning permission. It was noted that the chalet had been recently painted and looked better.

It was RESOLVED to request Councillor Harry Hayfield to discuss possible sources of funding with the individuals involved.

## 4. Property

### (a) Inspection Report

Councillor Harry Hayfield advised that he had inspected the play area, tennis courts, car park and bottle bank.

He expressed concern that the glass banks were overflowing and it was not clear whether the county Council were undertaking weekly collections. The Clerk explained that the agreement with the County Council required them to empty the banks on a weekly basis and that the list on the latest invoice received that morning from the County Council showed that there had not been any collections on three occasions during the past quarter. The clerk also explained that it was the responsibility of the Community Council to keep the area tidy. There was general agreement that a third bank could be placed in this location to meet the demand. Following discussion it was RESOLVED:

- i) to remind the County Council of its responsibility under the agreement to empty the banks on a weekly basis;
- ii) to request that a third glass bank be placed in the location in order to meet the demand.

**(b) Diweddariad ar y Ceisiadau Grant**  
Cynghorodd y Clerc bod hysbysiad o'r cymorth grant wedi'i dderbyn nawr gan Gyngor Sir Ceredigion parthed y ddau brosiect isod:

- adeiladu sied storio
- ailorchuddio'r cyrtiau tenis.

PENDERFYNWYD:

- i) bwrw 'mlaen gyda'r sied storio;
- ii) talu'r ffi oedd angen ar Western Power Distribution i sicrhau cyflenwad trydan yn y swm o £1,150.45; a
- iii) rhoi gwybod i'r contractwr bod angen bwrw 'mlaen gyda ailorchuddio'r cyrtiau tenis ar ddiwedd gwyliau haf yr ysgolion.

## 5. Cyllid

PENDERFYNWYD:-

- i) nodi bod Cyfrifon Blynyddol 2014-15 wedi'u harchwilio'n fewnol ac wedi eu hanfon ymlaen at yr archwilwyr allanol cyn 30 Mehefin 2015;
- ii) talu tanysgrifiad Un Llais Cymru ar gyfer 2015-16 yn y swm o £162;
- iii) talu'r canlynol parthed cyflogi'r Clerc yn ystod y cyfnod Ebrill-Mehefin 2015:

Mr Denfer Morgan (Salari y Clerc)

£537.12

HMRC (PAYE) £134.28

Lwfans y Clerc (defnydd trydan, teleffon, wifi) £120

## 6. Gohebiaeth ac Ymgynghoriadau

- (a)** Cais Cynllunio A150388 - Hafodwnog Uchaf, Nebo, Llanon. Codi sied amaethyddol ar gyfer cadw gwartheg a ffedog congrid. Dim gwrthwynebiad.
- (b)** Adolygu Polisi Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion  
Esboniodd y Clerc taw crynodeb o'r polisïau presennol oedd y ddogfen ac ni fwriadwyd cyflwyno unrhyw newidiadau. Nodwyd.

## (c) Up-date on the Grant Applications

The Clerk advised that notification of grant aid had now been received from Ceredigion County Council with regard to the following two projects:

- construction of a storage shed
- resurfacing of the tennis courts

It was RESOLVED:

- i) to proceed with the storage shed project;
- ii) to pay the fee required by Western Power Distribution in order to provide an electricity supply in the sum of £1,150.45;
- iii) to advise the contractor that there was a need to proceed with the resurfacing of the tennis courts at the end of the school summer holidays.

## 5. Finance

It was RESOLVED:-

- i) to note that the Annual Accounts for 2014-15 had been audited internally and forwarded to the external auditors before 30 June 2015;
- ii) to pay the subscription to One Voice Wales for 2015-16 in the sum of £162;
- iii) to pay the following in respect of the Clerk's employment for the period April-June 2015:

Mr Denfer Morgan (Clerk's Salary)

£537.12

HMRC (PAYE) £134.28

Clerk's Allowance (use of electricity, telephone, wifi) £120

## 6. Correspondence and Consultation Matters

- (a)** Planning Application A150388 - Hafodwnog Uchaf, Nebo, Llanon. Erection of an agricultural shed for housing cattle and concrete apron. No objection.
- (b)** Ceredigion County Council Review of Licensing Policy  
The Clerk explained that the document was a summary of current policies and no changes were envisaged. Received.

## **7. Unrhyw Fater Arall**

**7.1** Holodd y Cynghorydd Jim Hughes ar ran etholwr os oes dal angen arwydd ffordd mewn lleoliad ar yr A487 yn y pentref yn tynnu sylw am ffordd anwastad a chytunwyd i'r Clerc gysylltu â'r Awdurdod Cefnffyrdd am eglurhad.

**7.2** Cyfeiriodd y Cynghorydd Dennis Morgan at yr angen am arwyddion gwell ar lwybrau cyhoeddus a chytunwyd cysylltu â'r Cyngor Sir ar y mater hwn.

## **8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Cyfarfod Blynyddol a'r Cyfarfod Misol**

Gann ad oedd y Cadeirydd a'r Clerc ar gael yn ystod yr wythnos gyntaf cytunwyd cwrdd ar yr ail Nos Fawrth, sef 11eg Awst 2015, os fydd yna ddigon o faterion i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 y.h.

## **7. Any Other Business**

**7.1** Councillor Jim Hughes asked on behalf of a constituent whether the temporary traffic sign warning of an uneven road was still needed at a location on the A487 in the village; and it was agreed that the Clerk contact the Trunk Road Agency for clarification.

**7.2** Councillor Dennis Morgan referred to the need for better signage for public footpaths and it was agreed to contact the County Council on this matter.

## **8. Date of Next Meeting – Annual Meeting and Monthly Meeting**

As neither the Chairman nor the Clerk were available during the first week, it was agreed to meet on the second Tuesday, namely 11<sup>th</sup> August 2015, should there be sufficient items for consideration.

The meeting concluded at 9.00 p.m.